Rhif ymchwil cymdeithasol: 11/2026

Dyddiad cyhoeddi: 03/02/2026

# Coedwig Genedlaethol Cymru: Gwerthusiad canol tymor – Adroddiad Cam 2

## Crynodeb gweithredol

### 1. Cyflwyniad

Mae'r Goedwig Genedlaethol yn brosiect cenedlaethol sydd i bara degawdau, a'i nod yw adfer a chynnal coetiroedd presennol a'u cysylltu ag ardaloedd coetiroedd newydd trwy blannu coed. Ym mis Mehefin 2024, comisiynwyd Wavehill gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen. Mae'r gwerthusiad yn ymwneud â gweithredu'r cynllun rhwng Medi 2022 a Hydref 2025 ac mae'n gwerthuso prosesau ac effeithiau. Mae'r adroddiad Cam 2 hwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yng Ngham 1 y gwerthusiad a oedd yn canolbwyntio ar archwilio pa mor effeithiol oedd y mecanweithiau ar gyfer gweithredu'r rhaglen gan gynnwys rolau staff, cyllid a Chynllun Statws y Goedwig Genedlaethol. Mae'r adroddiad Cam 2 hwn yn archwilio barn cymunedau ac aelodau'r cyhoedd am y Goedwig Genedlaethol a'u profiadau ers lansio'r Cynllun Statws ym mis Mehefin 2023. Mae hefyd yn argymell dyluniad ar gyfer asesu effaith gymdeithasol yn y dyfodol.

### 2. Methodoleg

Defnyddiwyd astudiaethau achos mewn sampl o wyth safle sydd yng Nghoedwig Genedlaethol Cymru er mwyn casglu ac archwilio barn a phrofiadau cymunedau. Roedd y gwaith ymchwil a wnaed yn cynnwys 17 ymweliad â safleoedd a chyfweliadau lled-strwythuredig a grwpiau ffocws i 16 o staff rheoli safleoedd, saith trefnydd allanol digwyddiadau a gweithgareddau, 46 o wirfoddolwyr ac 83 o ymwelwyr. Dosbarthwyd holiadur cymunedol trwy reolwyr y safleoedd er mwyn casglu barn ystod ehangach o bobl a derbyniwyd 137 o ymatebion ar draws yr wyth

safle. Trwy gyfweliadau â saith rhanddeiliad ym maes coedwigaeth yng Nghymru, archwiliwyd hefyd farn ar gynnydd y rhaglen a'i ffocws i'r dyfodol.

Cynhaliwyd adolygiad desg o ymchwil berthnasol yn ymwneud â rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd tebyg ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig er mwyn arwain yr asesiad ynghylch pa ddulliau gwerthuso effaith fyddai'n addas i'w cymhwyso i'r rhaglen yn y dyfodol. Cynhaliwyd cyfweliadau â saith aelod o staff o sefydliadau sy'n cynnal rhaglenni coedwigaeth ledled y DU i archwilio sut mae cynlluniau eraill yn mynd ati i fesur effaith, yr heriau a wynebwyd, a'r methodolegau a ddefnyddir ganddynt i asesu canlyniadau. Cynhaliwyd gweithdy ar fesur effaith hefyd gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, tîm Swyddogion Cyswllt Coetiroedd sydd yn rhan o Gyfoeth Naturiol Cymru, a Forest Research er mwyn casglu barn ar opsiynau addas ac i archwilio beth fyddai angen ei gynnwys yn y rhaglen i alluogi gwerthuso ei heffaith gymdeithasol yn y dyfodol.

## 3. Canfyddiadau

### Barn y cyhoedd am goedwigoedd yng Nghymru

Mae'n debygol iawn y bydd barn y cyhoedd am goetiroedd a choedwigoedd yn gyffredinol yn dylanwadu ar agweddau'r cyhoedd tuag at raglen Coedwig Genedlaethol Cymru, ac archwilir hyn yn arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigoedd (POFS) Cymru. Mae canfyddiadau arolwg 2025 POFS yn awgrymu bod angen parhau ag ymdrechion i hyrwyddo buddion coetiroedd i bobl, bywyd gwyllt a'r amgylchedd. Ym marn Wavehill (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel y tîm gwerthuso), pwysleisia hyn y cyfraniad cadarnhaol y gall y rhaglen ei wneud i hyrwyddo buddion safleoedd coedwigoedd a choetiroedd ac annog mwy o bobl i ymweld â nhw.

### Barn cymunedau am y Goedwig Genedlaethol

Awgrymai'r cyfweliadau ag ymwelwyr yn y safleoedd mai isel oedd lefelau'r ymwybyddiaeth o gynllun Coedwig Genedlaethol Cymru ymysg ymwelwyr. Pan nodai gwirfoddolwyr ar draws safleoedd yr astudiaethau achos eu bod wedi clywed am y rhaglen, cyfyngedig yn aml oedd eu gwybodaeth am yr hyn yr oedd yn ei olygu. Roedd lefelau ymwybyddiaeth ymatebwyr yr holiadur cymunedol gryn dipyn yn uwch, gyda 53% ohonynt yn dweud eu bod wedi clywed am Goedwig Genedlaethol Cymru. Dengys hyn fod angen cefnogi safleoedd i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen ar draws eu grwpiau defnyddwyr, gan gynnwys ymwelwyr a gwirfoddolwyr. Pan eglurwyd y cysyniad i ymwelwyr a gwirfoddolwyr, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r syniad o Goedwig Genedlaethol i Gymru fel ffordd o blannu coed neu ar gyfer rheoli da ar goetiroedd presennol ymysg y rheiny a gyfwelwyd ar y safleoedd ac ymatebwyr yr holiadur cymunedol.

## Profiadau cymunedau â safleoedd y Goedwig Genedlaethol hyd yn hyn

Y prif newidiadau a welwyd gan ymatebwyr yr holiadur cymunedol ers i'r safle yr ymwelwyd ag ef ymuno â'r Cynllun Statws oedd llwybrau wedi'u gwneud yn fwy hygyrch, coed wedi'u torri a'u symud, a chynnydd mewn gweithgareddau gwirfoddoli. Mae pedwar o safleoedd yr astudiaethau achos wedi derbyn cyllid trwy'r Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd (TWIG). Y cynllun grant hwn oedd un o fecanweithiau rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru ac mae'n rhoi cefnogaeth ar gyfer creu, gwella ac adfer coetiroedd. Mae'n debygol bod y newidiadau hyn wedi'u hariannu trwy'r grant hwn yn y safleoedd penodol hyn.

Yn seiliedig ar yr atebion i'r holiadur cymunedol, y gweithgareddau hamdden mwyaf cyffredin a wnâi ymwelwyr yn safle eu coetir oedd cerdded, mynd â chŵn am dro a gwylio bywyd gwyllt. Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r holiadur cymunedol hefyd yn dangos bod ymatebwyr yn gwneud ystod eang o weithgareddau ledled wyth safle'r astudiaethau achos, a'r rheiny'n cynnwys rhedeg, beicio, crefftau coed, a physgota.

Mae gwirfoddolwyr yn rhoi cefnogaeth gref ym mhob un o'r wyth safle sy'n astudiaeth achos. Mae cyfweliadau â staff y safleoedd, grwpiau ffocws a chyfweliadau â gwirfoddolwyr mewn saith o safleoedd yr astudiaethau achos yn awgrymu bod yr adnodd gwirfoddoli hwn yn galluogi'r safleoedd i wneud amrywiaeth o weithgareddau rheoli coetir ac ymgysylltu cymunedol, yn ogystal ag esgor ar fuddion i'r gwirfoddolwyr eu hunain. Mae potensial i gyfranogiad gwirfoddolwyr ar safleoedd y Cynllun Statws gyfrannu'n uniongyrchol at nifer o ganlyniadau Coedwig Genedlaethol Cymru. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'n uniongyrchol ganlyniad y Goedwig Genedlaethol i alluogi 'cyfranogiad cymunedau mewn coetiroedd' yn ogystal â chefnogaeth gwirfoddolwyr yn cynnig cyfleoedd hamdden a dysgu i ymwelwyr.

Mae canfyddiadau o gyfweliadau â staff y safleoedd a gwirfoddolwyr yn dangos yr ystod o weithgareddau y mae gwirfoddolwyr yn eu gwneud ar draws safleoedd yr astudiaethau achos i gefnogi rheolaeth y safle. Mae eu gwaith yn cefnogi'r canlyniad gorfodol 'coedwigoedd gwydn o ansawdd da, sydd wedi'u dylunio a'u rheoli'n dda.' Fodd bynnag, roedd gwirfoddolwyr ar y safleoedd yn aml yn dweud nad oeddent yn ymwybodol bod eu gwaith gwirfoddoli yn debygol o gefnogi'r safle drwy gyfrannu at ganlyniadau ehangach rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru.

Awgrymodd yr holl ymwelwyr a gwirfoddolwyr a gyfwelwyd ar safleoedd yr astudiaethau achos y byddai'n ddefnyddiol hyrwyddo rhaglen y Goedwig Genedlaethol trwy'r sianeli ar-lein a ddefnyddir gan reolwyr safleoedd er mwyn cynorthwyo â'r ymdrechion i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am y fenter.

## Y buddion i gymunedau drwy safleoedd y Goedwig Genedlaethol

Y prif fuddion a amlygwyd drwy'r holiadur cymunedol a'r gwaith maes ansoddol gydag ymwelwyr ar y safleoedd oedd gwelliannau i iechyd a lles corfforol a meddyliol. Dangosodd ymatebion yr holiadur cymunedol ystod eang o fuddion eraill hefyd. Disgrifiodd ymwelwyr a gyfwelwyd ar y safleoedd hefyd y buddion a gafwyd o dreulio amser mewn coetiroedd yn gyffredinol yn ogystal â gwneud gweithgareddau hamdden penodol ar y safle. Ym marn y tîm gwerthuso, awgryma hyn fod y rhaglen yn cyfrannu at ystod o amcanion polisi cenedlaethol gan gynnwys amcanion llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae cyfweliadau â staff y safleoedd a threfnwyr allanol gweithgareddau a digwyddiadau wedi dangos yr ystod o weithgareddau sy'n cael eu cynnal ar y safleoedd ac effeithiau'r gweithgareddau hyn ar gymunedau. Dangosodd gwaith maes ar safleoedd yr astudiaethau achos ehangder y gweithio mewn partneriaeth sy'n digwydd gyda sefydliadau a mudiadau sy'n ymgysylltu ac yn cefnogi pobl a allai fod heb gynrychiolaeth ddigonol ym mhroffil yr ymwelwyr arferol â safleoedd coetiroedd a choedwigoedd.

Fel y dangosir yn eu ceisiadau i ymuno â rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru, mae llawer o safleoedd y Cynllun Statws, gan gynnwys safleoedd yr astudiaethau achos, yn defnyddio dull Gwyddoniaeth Dinasyddion, a hyn yn dangos cyfraniad cyfunol y rhaglen at amcanion bioamrywiaeth ac adfer rhywogaethau. Ym marn y tîm gwerthuso, gall annog a chefnogi safleoedd y Cynllun Statws i ddefnyddio dull Gwyddoniaeth Dinasyddion gefnogi'r garreg filltir genedlaethol yng Nghymru i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy wella sefyllfa rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad amlwg erbyn 2050.

## Dyheadau ac awgrymiadau ar gyfer y dyfodol

Roedd cefnogaeth gyffredinol ymhlith yr holl staff safleoedd a gyfwelwyd ynghylch cyfleoedd yn y dyfodol i gysylltu â rhwydwaith ehangach o safleoedd yn y Cynllun Statws a dysgu oddi wrthynt. Mae hyn eisoes yn digwydd trwy Rwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru.

Dywedodd pob rheolwr safle eu bod hefyd yn archwilio opsiynau i ddatblygu eu gweithgareddau mentergarwch a'u ffrydiau incwm i'w helpu i gael adnoddau ar gyfer cyflawni eu cynlluniau rheoli coetiroedd. Mae cyfweliadau â staff safleoedd yn dangos y gallai fod angen cyllid ar rai safleoedd i wella eu cyfleusterau a chryfhau'r effaith gadarnhaol y maent yn ei chynnig i'w cymunedau lleol.

## Cyfleoedd i'r dyfodol

Dywedodd pob safle sy'n astudiaeth achos eu bod yn dibynnu ar wirfoddolwyr, yn enwedig i gefnogi rheoli eu coetir, ond eto i gyd, yn y cyfweliadau â pherchnogion safleoedd a gwirfoddolwyr soniwyd am yr heriau cynyddol wrth recriwtio. Yn seiliedig

ar y canfyddiad hwn, awgryma'r tîm gwerthuso bod cyfle i'r rhaglen restru safleoedd y Cynllun Statws ar blatfform Gwirfoddoli Cymru i hyrwyddo cyfleoedd. Ymhellach, o ystyried y ffocws cryf ar iechyd a lles, gellid sôn am y safleoedd hefyd ar wefan Dewis Cymru, sy'n helpu pobl i ddod o hyd i wasanaethau i gefnogi eu lles.

### Barn rhanddeiliaid am Goedwig Genedlaethol Cymru

Cefnogai'r rhanddeiliaid sy'n ymwneud â pholisi a'r maes coedwigaeth yng Nghymru y syniad o sefydlu Coedwig Genedlaethol fel rhwydwaith cenedlaethol o goetiroedd a choedwigoedd ledled Cymru o dan reolaeth o ansawdd uchel.

Thema aml a godwyd ym mhob cyfweliad â rhanddeiliaid coedwigaeth oedd argaeledd adnoddau i gefnogi safleoedd presennol i reoli eu coetiroedd yn dda neu gefnogi darpar safleoedd i wneud gwaith adferol i'w cael i sefyllfa lle gallent wneud cais i ymuno â'r rhwydwaith. Awgrymodd tri rhanddeiliad y gallai fod angen cyllid ychwanegol ar safleoedd yn y rhwydwaith i'w galluogi hwy a'r rhaglen yn ehangach i wireddu eu potensial. Maes arall y cytunid arno yn amlwg yn y cyfweliadau â rhanddeiliaid oedd cefnogaeth gref i sefydlu dull clir o gasglu tystiolaeth ar sut mae safleoedd Coedwig Genedlaethol Cymru yn cyfrannu at ystod o feysydd polisi.

## 4. Dulliau gwerthuso effaith

Dylai unrhyw ddull o asesu effaith gymdeithasol rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru gyd-fynd ag asesiadau arfaethedig ar effaith amgylcheddol yn ogystal ag ystyried unrhyw ymchwil gymdeithasol sydd eisoes yn digwydd ar y safleoedd.

### Dulliau gwerthuso effaith a ddefnyddir gan safleoedd coedwig eraill

Mae'r dystiolaeth a welwyd drwy waith maes â rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd eraill y Deyrnas Unedig yn awgrymu na ddylid cael un dull yn unig ar gyfer mesur effaith gymdeithasol. O gofio amrywiaeth gwahanol y safleoedd sydd yn rhwydwaith y Cynllun Statws, mae angen i'r dull fod yn gymesur ac yn addas i safleoedd o ran eu maint, eu perchnogaeth, eu strwythur rheoli a'u capasiti ynghyd â natur y gweithgareddau a gynhelir yno. Gofynion unrhyw dystiolaeth neu feysydd polisi gan adrannau'r llywodraeth ddylai llywio paramedrau'r dull mesur effaith.

Mae'r dangosyddion a ddefnyddir gan y rhaglenni coetiroedd a choedwigoedd yn ardaloedd eraill y DU yn canolbwyntio'n bennaf ar gasglu dangosyddion sy'n gysylltiedig â gweithgareddau ac allbynnau. Yn absenoldeb y rhain ar gyfer rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru, dylai unrhyw ddull mesur effaith ystyried cyflwyno'r rhain yn gyntaf i gasglu rhywfaint o fesurau cyson o weithgarwch ac yna ehangu'r dull i gefnogi mesur canlyniadau ac effeithiau.

Awgryma tystiolaeth o raglenni coedwigaeth eraill y Deyrnas Unedig y byddai'n fuddiol sefydlu cyllideb ymchwil i ddarparu capasiti ac arbenigedd i gofnodi effeithiau cymdeithasol drwy gydweithio â safleoedd.

Er mwyn cefnogi deall pa effeithiau tebygol y gellid eu disgwyl o weithgareddau a gynhelir ar safleoedd y Cynllun Statws, gellid defnyddio ffynonellau tystiolaeth sy'n bodoli eisoes i nodi'r effeithiau a gyflawnwyd gan raglenni coetiroedd a choedwigoedd tebyg fel rhan o ddulliau mesur effaith. Byddai creu Theori Newid ar lefel rhaglen yn sicrhau pensaernïaeth lefel uchel ar gyfer y dull mesur effaith gymdeithasol ynghyd â rhoi arweiniad ar gyfer unrhyw gasglu data gan safleoedd y Cynllun Statws.

### Achrediadau, ardystiadau a safonau

Un opsiwn ar gyfer mesur effaith rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yw defnyddio'r data a'r gwaith asesu a wneir eisoes gan safleoedd coetiroedd a choedwigoedd ar gyfer achrediadau cydnabyddedig. Ym marn y tîm gwerthuso, byddai hwn yn opsiwn deniadol i lawer o reolwyr safleoedd coetiroedd a choedwigoedd gan y gallai leihau'r angen i gasglu data ychwanegol a lleihau dyblygu os ydynt eisoes yn meddu ar achrediadau penodol. Gellid gwneud gwaith pellach i ddeall i ba raddau y mae gan safleoedd achrediadau, ardystiadau a safonau perthnasol ac yna penderfynu beth sy'n cael ei gasglu drwy'r cynlluniau hyn ac archwilio pa mor berthnasol ydynt ar gyfer asesu effaith rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru.

### Offer a fframweithiau pennu gwerth

Mae ymchwil flaenorol wedi archwilio'r potensial i ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau pennu gwerth a fframweithiau gwerthuso a allai gynnig opsiynau i asesu effeithiau cymdeithasol. Nid yw'n glir i ba raddau y mae perchnogion coedwigoedd a choetiroedd yn y Cynllun Statws yn defnyddio offer gwerthuso a phennu gwerth y gellir eu defnyddio i gymharu. Byddai deall y defnydd o'r offer hyn ar draws safleoedd yn helpu i lywio opsiynau ar fesur effaith yn y dyfodol ar gyfer rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru.

### Opsiynau ar gyfer Coedwig Genedlaethol Cymru

Er mwyn adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y safleoedd, byddai dull haenog yn debygol o fod yn addas fel fframwaith a strwythur i'r dull mesur effaith gymdeithasol. Mae'n bosibl fod nifer fach o safleoedd yn canolbwyntio'n llwyr ar sicrhau canlyniadau amgylcheddol, ac felly ni fyddai cymryd rhan yn y broses hon yn briodol. Dylid annog safleoedd i gasglu data monitro sylfaenol a data ar weithgareddau (Lefel 1) er mwyn galluogi'r rhaglen i gasglu manylion ynghylch dosbarthiad ac amlder gweithgareddau a chyfraniad gwirfoddolwyr ledled safleoedd y Cynllun Statws.

Efallai y bydd nifer llai o safleoedd am fabwysiadu dull mesur sy'n helpu i ehangu'r sylfaen dystiolaeth (Lefel 2). Gallai'r safleoedd hyn ddatblygu theori newid i fod yn sail i ddefnyddio astudiaethau achos ar effaith ac astudiaethau ansoddol a disgrifiadol i adeiladu ar y data monitro ac allbwn a gesglir yn Lefel 1.

Gellid dynodi llond llaw o safleoedd i fod yn safleoedd arddangos (Lefel 3). Byddai'r safleoedd hyn yn mynd y tu hwnt i ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar theori sy'n benodol i'w safle (Lefel 2) drwy fabwysiadu dull mesur effaith i gynhyrchu tystiolaeth y gellir ei gyffredinoli mwy. Byddai hyn o gymorth i raglen Coedwig Genedlaethol Cymru drwy ddefnyddio'r safleoedd arddangos hyn i ddangos beth yw'r effaith gymdeithasol debygol ledled y safleoedd sydd â gweithgareddau tebyg.

Bydd tîm y rhaglen angen digon o gyllid ac adnoddau i gasglu, prosesu a dadansoddi unrhyw ddata a thystiolaeth gan safleoedd y Cynllun Statws mewn perthynas â'u heffaith gymdeithasol.

## 5. Casgliadau

Mae cefnogaeth gyffredinol i'r cysyniad o gael rhaglen Coedwig Genedlaethol i Gymru. Mae safleoedd yr astudiaethau achos yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau hamdden sy'n dangos y cyfraniad y mae'r safleoedd yn ei wneud i feysydd polisi sy'n ymwneud â chael pobl yn egnïol a mabwysiadu ffyrdd iach o fyw. Mae safleoedd yr astudiaethau achos hefyd yn enghreifftiau cadarnhaol o weithio mewn partneriaeth i ymestyn eu cyrhaeddiad i gymunedau a chynyddu gwerth safleoedd coetir er budd cymunedol.

Er mwyn adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y safleoedd sydd yn y Cynllun Statws, byddai dull haenog yn debygol o fod yn addas i fesur yr effaith gymdeithasol. Dylai unrhyw ddull mesur effaith fynd ati i gasglu mesurau cyson am weithgarwch ac yna ehangu'r dull i gefnogi mesur canlyniadau ac effeithiau.

## 6. Argymhellion

Cynigir yr argymhellion canlynol i lywio sut y dylai rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru edrych ar ôl 2025:

- Dylid llunio Theori Newid ar lefel rhaglen ar gyfer Coedwig Genedlaethol Cymru i sicrhau pensaernïaeth lefel uchel ar gyfer y dull mesur effaith a fabwysiedir.
- Mae angen ymdrechion parhaus i hyrwyddo a chodi proffil rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru a safleoedd unigol. Dylai hyn gynnwys adnoddau, cefnogaeth ac anogaeth i alluogi safleoedd i hyrwyddo'r rhaglen a'i hamcanion i'w hymwelwyr, gwirfoddolwyr, sefydliadau partner a chymunedau.
- O gofio'r rôl bwysig sydd gan wirfoddolwyr yn y gwaith o reoli safleoedd sydd yn y Cynllun Statws, dylai'r rhaglen archwilio opsiynau i sefydlu cysylltiadau â phlatfform Gwirfoddoli Cymru. Bydd hyn yn cynorthwyo safleoedd i ddenu gwirfoddolwyr i gefnogi'r nod o wella'r rheolaeth ar goetiroedd ac ehangu cyfleoedd hamdden i gymunedau lleol.
- Er mwyn adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y safleoedd gwahanol, dylid mabwysiadu dull hyblyg a haenog o fesur effaith gymdeithasol. Dylai'r rhaglen gynnig canllawiau ac adnoddau i gynorthwyo safleoedd â'u gweithgarwch

mesur effaith eu hunain a dylid ystyried opsiynau i ddefnyddio'r data a'r gwaith asesu a wneir eisoes gan safleoedd coetiroedd a choedwigoedd ar gyfer achrediadau cydnabyddedig. Dylai'r rhaglen hefyd gasglu mesurau cyson am weithgarwch ar draws safleoedd cyn ehangu'r dull i gefnogi mesur canlyniadau ac effeithiau.

- Yn seiliedig ar dystiolaeth o raglenni coedwigaeth eraill y Deyrnas Unedig, buddiol fyddai sefydlu cyllideb ymchwil i ddarparu capasiti ac arbenigedd i gofnodi effeithiau cymdeithasol drwy gydweithio â safleoedd. Dylid ystyried yr amserlenni y mae cyllid ymchwil ar eu cyfer er mwyn osgoi creu gwaelodlin o'r sefyllfa nawr heb y cyllid angenrheidiol i ddiweddaru'r ymchwil hon yn y dyfodol.
- Mae cefnogaeth gref i rannu dysgu ac arferion ar draws safleoedd y Cynllun Statws. Mae hyn yn pwysleisio gwerth a phwysigrwydd rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru. Dylai'r rhaglen adolygu gallu a sgiliau tîm y rhaglen i reoli'r rhwydwaith er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith yn gwireddu ei botensial.
- Dylid cael eglurder ynghylch ffocws y rhaglen i'r dyfodol o ran naill ai ceisio tyfu'r rhwydwaith a chynyddu nifer y safleoedd neu atgyfnerthu'r rhaglen i gefnogi safleoedd presennol. Dylai hyn ystyried y goblygiadau ar allu tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd i gefnogi safleoedd sydd wedi ymuno â'r Cynllun Statws.

Awduron yr adroddiad: Andy Parkinson, Anna Burgess, Megan Clark,

Dr Nikola Vousden a Rhys Maher.

Adroddiad ymchwil llawn: Parkinson, A; Burgess, A; Clark, M; Vousden, N; Maher, R. (2025). Teitl. Coedwig Genedlaethol Cymru – Gwerthusiad Canol Tymor – Adroddiad Cam 2. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 11/2026

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/coedwig-genedlaethol-cymru-gwerthusiad-canol-tymor-adroddiad-cam-2

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag:

Tîm Ymchwil i'r Hinsawdd ac i'r Amgylchedd

Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost y tîm neu gangen: YmchwilHinsawddAcAmgylchedd@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-925-9